



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



# Gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru

Cynllun strategol pum - mlynedd 2017-2022



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**



## Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW

Ffôn: 0300 303 3444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: [gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru)

Gwefan: [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)



© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

ISBN: 978-1-911463-27-6

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

## Fformatau eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill os oes angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

# Ein partneriaid strategol



Mae'r partneriaid canlynol wedi ymrwymo i wireddi'r cynllun hwn:





## 05 Rhagair

## 07 Crynodeb gweithredol

08 Ein gweledigaeth am newid

## 09 1. Cyflwyniad

09 Y cynllun strategol hwn

## 10 2. Yr achos dros newid

10 2.1 Y sefyllfa bresennol

11 2.2 Pam y mae angen newid pethau

11 2.3 Ein gweledigaeth ar gyfer newid

## 12 3. Y prif feysydd ar gyfer gweithredu

12 3.1 Sicrhau bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ynghyd â gofalwyr, yn bartneriaid cyfartal sy'n gallu defnyddio'u sgiliau a'u profiadau i helpu i wneud penderfyniadau.

13 3.2 Rhoi gofal a chymorth yn y cartref sydd wedi'i ddylunio o amgylch cymunedau.

14 3.3 Rhoi gofal a chymorth yn y cartref sy'n ceisio sicrhau canlyniadau personol ac ateb gwahanol anghenion.

15 3.4 Buddsoddi mewn amrywiaeth o opsiynau o ansawdd da sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol ac yn iach.

16 3.5 Sicrhau bod gan y gweithlu y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i roi gofal a chymorth yn y cartref.

17 3.6 Seilio gofal a chymorth yn y cartref ar y dystiolaeth orau o ymchwil academiaidd ac ymchwil sy'n edrych ar arferion.

## 18 4. Y camau nesaf

## 19 Atodiad 1: Cyfranwyr at ddatblygu'r cynllun strategol

## 20 Atodiad 2: Dogfennau allweddol





**Mae rhaid cael newid systematig i'r ffordd mae gofal a chymorth yn y cartref yn cael ei ddarparu, ac yn fuan, os ydym i barhau i gyflawni anghenion pobl. Mae llawer o bobl wych yn gwneud gwaith ardderchog bob dydd ym mhob rhan o Gymru, ond nid yw'r system yn ymdopi â'r galw ar hyn o bryd. Mae angen rhoi sylw penodol i'r cyfraniad hollbwysig y mae gofawyr di-dâl yn ei wneud i sicrhau i barhau roi cymorth.**

Mae'n rhaid i rywbeth newid yn gyflym. Nid yw parhau i wneud yr un pethau yn opsiwn.

Gwyddom fod y system ar gyfer rhoi gofal a chymorth yn y cartref yn un gymhleth ac yn un sy'n newid yn barhaus, a'i bod yn cynnwys pobl, eu gofawyr a nifer o asiantaethau gwahanol. Ni allwn obeithio gwella popeth, ond mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar y meysydd y mae angen rhoi'r sylw mwyaf brys iddynt, gan helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl.

Gwyddom fod aros yn eu cartrefi a'u cymunedau yn hynod o bwysig i oedolion a phlant sydd ag anghenion iechyd a gofal, ac mae'n gwneud synnwyr economaidd i geisio cynnal y sefyllfa hon. Er mwyn sicrhau gwelliannau a fydd yn para, mae'n rhaid i'r rheini y mae angen cymorth arnynt, a'r rheini sy'n rhoi'r cymorth hwnnw'n uniongyrchol, fod yn bartneriaid cyfartal yn y broses o benderfynu sut y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu. Mae hyn yn galw am newid diwylliant ymhlith pawb. Mae'n rhaid i ddinasyddion a theuluoedd wneud cymaint ag y gallant drostynt eu hunain, ac mae angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen helpu pobl i reoli eu risgiau eu hunain ac i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros eu lles eu hunain.

Er mwyn gwella'r sefyllfa, mae'n hanfodol gwella ansawdd a statws gweithwyr gofal a chymorth. Yn gyffredinol, nid yw cymdeithas yn rhoi digon

o werth ar weithwyr gofal a chymorth tan y bydd ar bobl neu eu teuluoedd angen y gwasanaethau eu hunain.

Mae'n gofyn hefyd am gomisiynu gwasanaethau a darpariaeth mewn ffyrdd newydd. Mae'n rhaid canolbwyntio ar wella lles personol pobl ac ar ateb eu hanghenion. Ni fydd dull sy'n rheoli o'r brig, gan edrych ar "amser a thasg", yn cyflawni hyn, ac ni fydd yn arwain at y newidiadau y mae angen eu gwneud. Gall taliadau uniongyrchol roi cymorth mewn ffordd sy'n cael ei harwain gan y dinesydd, ac mae angen manteisio ar botensial y rhain er budd pobl hyn ac er mwyn datblygu modelau newydd o roi cymorth yn y gymuned.

Fel Gofal Cymdeithasol Cymru, o 2018 ymlaen, byddwn yn cofrestru gweithwyr gofal cartref sy'n rhoi gofal a chymorth yn y cartref. Bydd hyn yn gymorth i greu gweithlu mwy cymwys, ac un sy'n cael ei werthfawrogi'n well, ond bydd yr heriau wrth recriwtio a chadw gweithwyr yn parhau tan y bydd cyflogau ac amodau'r swydd yn gwella, ac mae'n rhaid derbyn bod ansawdd yn costio.

Mae'r Llywodraeth a'n partneriaid yn y sector gofal cymdeithasol wedi datgan bod gofal a chymorth yn y cartref yn brif flaenoriaeth er mwyn gwella. Rydym wedi bod yn gweithio â nifer o sefydliadau dros y misoedd diwethaf i ddatblygu strategaeth a all arwain at y gwelliannau y gwyddom y mae galw mawr amdanynt.



Mae angen gwella'r modd y caiff y gweithlu ei gynllunio ac mae angen datblygu mwy a chyflwyno mwy o arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rhaid inni osod meincnod sylfaenol ar gyfer y safon a ddisgwylir, gan sylweddoli ar yr un pryd y bydd safonau'n amrywio yn sgil natur wledig cymunedau, anghenion ieithyddol, ac amgylchiadau unigolion, gan gynnwys eu cryfderau a'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Os ydym i gyflawni'r nod o roi mwy o ofal a chymorth yn y cartref, ac osgoi ymatebion sy'n fwy costus, mae angen symud adnoddau o ffurfiau mwy aciwt o roi gofal a thriniaeth. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol eisoes wedi rhoi tystiolaeth bod defnyddio adnoddau i dargedu ymyrraeth gynnar yn y gymuned yn effeithiol er mwyn lleihau'r galw, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn rhoi ateb cynaliadwy er mwyn ymdopi â'r galw newydd.

Mae angen newid y system drwyddi draw. Dylid sicrhau bod pob ffynhonnell o gymorth yn y gymuned, gan gynnwys cartrefi addas, yn cyd-fynd a'i gilydd er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl ac osgoi dyblygu gwaith. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol mewn sefyllfa ddelfrydol i edrych ar yr holl adnoddau sydd ar gael ac i ddefnyddio asesiadau o anghenion y boblogaeth yn sail i flaenoriaethau wrth fuddsoddi.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth hon, strategaeth sydd wedi'i llunio ar sail tystiolaeth. Diolch hefyd i bawb sydd wedi ymrwmo i gydweithio â ni er mwyn rhoi'r blaenoriaethau pwysicaf ar waith ym meysydd comisiynu, cofrestru, recriwtio a chadw gweithwyr, sef y meysydd hynny y mae'r brys mwyaf i roi sylw iddynt.

Er y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn goruchwyllo'r broses o roi'r strategaeth hon ar waith ar ran y sector, mae cyfrifoldeb arnom oll i gyfrannu er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol. Dyna pam y byddwn yn gweithio â chi dros y misoedd sydd i ddod er mwyn trafod a chytuno sut y byddwch chi'n cyfrannu yn hyn o beth.

Mae pawb sy'n cael ac yn rhoi gofal a chymorth yn y cartref yn dibynnu arnom i lwyddo. Dewch inni sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol er mwyn i hyn ddigwydd, fel bod gennym wasanaeth cynaliadwy o ansawdd da y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono.

**Sue Evans**  
**Prif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru**





Mae pobl yng Nghymru eisiau byw yn eu cartrefi eu hunain, ac mae gofal a chymorth o ansawdd da yn help i bobl aros yn annibynnol ac yn iach. Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl eisiau cymorth hyblyg a chyson sy'n canolbwyntio ar eu lles personol.

Teuluoedd, gofalwyr a chymunedau yw sylfeini gofal a chymorth yn y cartref. Wrth i'r galw am ofal a chymorth gynyddu, mae angen inni wneud newidiadau er mwyn mynd i'r afael â heriau gwirioneddol. Bydd hyn yn cynnwys ffyrdd newydd o gynllunio gofal a chymorth yn y cartref a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i roi gwasanaethau.



## Ein gweledigaeth am newid

**Pobl yng Nghymru yn cydweithio er mwyn gwella lles drwy ofal a chymorth yn y cartref**

Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen inni wneud y canlynol:

### **1. Sicrhau bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ynghyd â gofalwyr, yn bartneriaid cyfartal sy'n gallu defnyddio'u sgiliau a'u profiadau i helpu i wneud penderfyniadau.**

Mae dewis a rheolaeth yn bwysig i bobl. Bydd hyn yn gofyn am newid diwylliant ac arferion gan bawb.

### **2. Rhoi gofal a chymorth yn y cartref sydd wedi'i ddylunio o amgylch cymunedau**

Mae angen helpu gofalwyr i barhau i roi gofal, a helpu cymunedau i roi cymorth. Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddeall yr hyn y gall cymunedau ei gynnig a datblygu eu gallu i gynnal iechyd a lles pobl.

### **3. Rhoi gofal a chymorth yn y cartref sy'n ceisio sicrhau canlyniadau personol ac ateb gwahanol anghenion**

Dylai gofal a chymorth yn y cartref fod yn hyblyg. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddylunio gofal a chymorth yn y cartref o amgylch canlyniadau lles personol. Bydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol a Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu helpu i wneud hyn.

### **4. Buddsoddi mewn amrywiaeth o opsiynau o ansawdd da sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol ac yn iach**

Mae angen rhoi cyllid digonol ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd o gynyddu'r adnoddau sydd ar gael a'u defnyddio'n hyblyg fel bod gofal a chymorth yn y cartref yn gynaliadwy.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol symleiddio eu systemau ar gyfer prynu gwasanaethau cymorth a gofal yn y cartref, gyda help y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol.

### **5. Sicrhau bod gan y gweithlu y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i roi gofal a chymorth yn y cartref**

Mae'r gweithlu yn hanfodol; mae angen eu gwerthfawrogi ac mae angen iddynt fod yn ddibynadwy, yn fedrus ac yn hyderus. Dylai Gofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu a rhoi ar waith strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn annog hyn.

### **6. Seilio gofal a chymorth yn y cartref ar y dystiolaeth orau o ymchwil academiaidd ac ymchwil sy'n edrych ar arferion**

Mae angen inni sicrhau ein bod yn seilio gofal a chymorth yn y cartref ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ac uned Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru gydweithio er mwyn gwella arferion yn barhaus ac ar sail tystiolaeth.

## **Y camau nesaf**

Er mwyn cyflawni gweledigaeth y cynllun strategol, mae pobl angen ymrwymo i wneud newidiadau ar y cyd.

Mae angen dechrau ar y gwaith yn syth. Rydym wedi datblygu cynllun sy'n dangos rhai o'r camau cyntaf y mae angen eu cymryd. Byddwn yn gweithio â phobl drwy Gymru i gynllunio pa welliannau sydd angen eu gwneud, a sut y caiff hynny ei gyflawni.



# 1. Cyflwyniad



Mae pobl yng Nghymru am fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, gan gael y cymorth y mae ei angen arnynt ar adegau sy'n gyfleus iddynt hwy. Mae hyn yn wir hyd yn oed pan fydd eu hanghenion iechyd, gofal a chymorth yn rhai cymhleth.

Mae gofal a chymorth yn y cartref yn gwneud hyn yn bosibl. Mae'n gweithio mewn sawl ffordd, a gall y canlynol roi'r gofal a'r cymorth hwnnw:

- yr unigolion eu hunain
- teuluoedd
- gofalwyr
- cymunedau
- gwirfoddolwyr
- sefydliadau.

Ceir enghreifftiau yn y ddogfen 'Straeon am roi cymorth' sy'n cyd-fynd a'r strategaeth hon ac ar gael ar ein gwefan. Byddwn yn ychwanegu at y rhain er mwyn rhannu syniadau am ofal a chymorth da yn y cartref.

Mae gofal a chymorth effeithiol yn y cartref yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl. Gall wella a chynnal eu hannibyniaeth a'u lles. Pan fydd hyn yn gweithio'n dda, mae'n ddibynadwy, yn gyson, yn hyblyg ac yn arloesol.

Gall gofal a chymorth yn y cartref weithio ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau tai pan fydd galw am hynny.

## Y Cynllun Strategol hwn

Mae ystod eang o bobl a sefydliadau wedi cyfrannu at y cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr a'r gweithlu (Atodiad 1). Mae'r cynllun wedi'i seilio ar lawer o dystiolaeth o adolygiadau, adroddiadau a gwaith ymchwil. Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth hefyd wedi cyfrannu gydag adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol.

Mae'r cynllun wedi'i seilio ar gyfleoedd sy'n deillio o ddeddfwriaeth a newidiadau polisi diweddar:

- *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*
- *Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus*
- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)*
- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*

Mae'r holl dystiolaeth a gasglwyd yn dangos y meysydd pwysig y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae angen inni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl. Mae hwn yn gyfle i gydweithio ac i edrych o'r newydd ar bethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Ni allwn wneud hyn ar ein pennau'n hunain. Ni all unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sicrhau bod y cynllun yn llwyddiant. Mae angen dod ynghyd i wneud hyn. Bydd angen newid diwylliant a systemau er mwyn i anghenion pobl fod yn ganolog wrth roi gofal a chymorth yn y cartref. Bydd angen ymrwymiad gwleidyddol, strategol a gweithredol drwy Gymru hefyd.

Bydd dull newydd o weithio yn gwella lles pobl Cymru drwy wneud y canlynol:

- canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl
- cydnabod pwysigrwydd gofalwyr a rhoi gwell cymorth iddynt
- ymyrryd yn gynnar er mwyn rhoi cymorth i bobl yn eu cartrefi a'u cymunedau
- cydweithio i roi cymorth effeithiol ac effeithlon
- sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel drwy ganolbwyntio ar anghenion cymhleth yn gyntaf.

## 2. Yr achos dros newid



### 2.1 Y sefyllfa bresennol

Teuluoedd, gofalwyr a chymunedau yw'r sylfaen ar gyfer rhoi gofal a chymorth yn y cartref. Amcangyfrifir bod gofalwyr a theuluoedd yn rhoi 96 y cant o'r gwasanaethau gofal yng Nghymru. Mae cymunedau, gwirfoddolwyr a gwasanaethau yn rhoi help iddynt wneud hynny.

Fodd bynnag, yn rhy aml, ni fydd llais plant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr yn cael ei glywed.

Nid yw pobl wastad yn gwybod:

- o beth yw ystyr gofal a chymorth yn y cartref
- o sut y gallant gyfrannu yn eu cymunedau
- o pa wasanaethau sydd ar gael.

Weithiau, mae diffyg dewis wrth gynnig gofal a chymorth. Gall gwasanaethau fod yn araf yn

ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Mae hyn yn rhoi teuluoedd a gofalwyr o dan bwysau. Wrth i'r galw gynyddu, nid oes modd cynnal y sefyllfa.

Mae angen systemau syml arnom sy'n gweithio'n dda ac yn ymateb yn effeithlon wrth i'r hyn sy'n bwysig i bobl newid. Gall adolygiadau a chyfreithiau newydd gan y Llywodraeth roi cyfeiriad i bethau, ond ni allant ddatrys pob problem. Mae'r galw yn y dyfodol yn creu heriau gwirioneddol. Hyd yn oed os bydd pobl yn cyfrannu mwy, mae'r hinsawdd ariannol ynddi'i hun yn rhoi pwysau ar y system.

Mae'r hinsawdd ariannol yn rhoi her sylweddol, nawr ac yn y dyfodol ill dau. Mae angen cymorth ariannol er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau. Mae angen help arnom i wneud newidiadau, i

#### Yn ystod 2014/15:

**370,000**

o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, a'r nifer hwnnw'n cynyddu (gan gynnwys 791 o ofalwyr ifanc). Roeddent yn darparu tua **96 y cant** o wasanaethau gofal a chymorth yn y cartref.

Rhoddwyd **214,317** o oriau'r wythnos, gan **20,300** o weithwyr, i **39,500** o bobl, gan gostio **£293m**.

Prynodd y GIG **20 y cant** o oriau ar ben hynny, am gost o tua **£50m**. Prynodd **7,731** yn rhagor o bobl **2.3m** o oriau'n breifat, am gost o **£15.4m**.

**3,306**

o bobl yn byw mewn llety â chymorth.

Prynwyd **13.2 miliwn**

o oriau gofal cartref drwy awdurdodau lleol.

**60,606**

oedolion yn defnyddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn y gymuned.

**4,463**

o bobl yn cael taliadau uniongyrchol.

## 2. Yr achos dros newid



symud tuag at fodelau gweithio newydd, ac i ateb y cynnydd yn y galw. Ac mae'n rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd i helpu gofalgwyr a chymunedau.

Mae gofal a chymorth yn y cartref yn dibynnu ar weithlu sefydlog a chan hwnnw'r gwerthoedd, y sgiliau a'r wybodaeth gywir. Mae pwysau ariannol wedi effeithio ar amodau gweithio. Mae hyn yn arwain at statws a chyflogau isel, prinder wrth recriwtio, a throsiant staff uchel. Rhaid inni werthfawrogi'n well ein gweithlu gofal a chymorth yn y cartref.

### 2.2 Pam y mae angen newid pethau

Mae angen dull cyson o roi gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru. Rhaid i hyn fod wedi'i seilio ar unigolion, teuluoedd, gofalgwyr a chymunedau.

Mae hyn yn un o brif ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Dylai pobl allu byw yn eu cartrefi hyd yn oed pan fydd ganddynt anghenion cynyddol gymhleth. Er mwyn i hyn fod yn bosibl, mae angen inni wneud y canlynol:

- deall yr hyn sy'n bwysig i bobl a'r hyn sy'n gweithio'n dda
- cefnogi, gwerthfawrogi a chynnal gofalgwyr, gwirfoddolwyr a'r gweithlu
- newid ein dealltwriaeth o ofal a chymorth yn y cartref
- dod o hyd i ffyrdd o helpu pobl mewn cymunedau i gefnogi ei gilydd
- sefydlu ffyrdd clir o ymateb i anghenion gofal a chymorth mwy cymhleth
- creu systemau haws a llai tameidiog, edrych ar sut y gellir defnyddio a gwerthuso modelau gwasanaeth newydd, a galluogi'r gweithlu i weithio'n dda ac i ddatblygu wrth eu gwaith
- sicrhau bod telerau ac amodau'r gweithlu yn adlewyrchu'r gwaith y maent yn ei wneud a'u cyfrifoldebau.

Mae angen inni ddeall a thalu gwir gostau darparu gofal a chymorth o ansawdd da yn y cartref. Mae costau a risgiau posibl peidio ag ymateb i'r her hon yn gyflym yn fwy o lawer.

### 2.3 Ein gweledigaeth ar gyfer newid

#### Pobl yng Nghymru yn cydweithio er mwyn hyrwyddo lles drwy ofal a chymorth yn y cartref.

Mae'r nod hwn yn cyd-fynd â'r canlyniadau hyn o'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol<sup>1</sup>:

- Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl
- Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi
- Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas
- Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd
- Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno
- Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried
- Rwy'n siarad dros fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny dros fy
- Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant
- Gallaf gael gafael ar yr wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant
- Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati

<sup>1</sup> Mae'r canlyniadau hyn yn disgrifio'r hyn y dylai pobl ddisgwyl ei gyflawni er mwyn byw bywydau llawn. Maent wedi'u disgrifio yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.



## 3. Y prif feysydd ar gyfer gweithredu

### 3.1 Sicrhau bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ynghyd â gofalwyr, yn bartneriaid cyfartal sy'n gallu defnyddio'u sgiliau a'u profiadau i helpu i wneud penderfyniadau.

Mae dewis a rheoli pethau yn bwysig i bobl. Dylai hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer unrhyw strategaeth, cynllun neu raglen. Rhaid i bobl a chymunedau fod yn rhan ganolog o hynny a rhaid iddynt fod yn bartneriaid cyfartal wrth ddylunio a darparu gofal a chymorth yn y cartref (gelwir hyn weithiau yn gydgyngyrchu).

Mae ein hymchwil yn dangos bod rhai pethau yn wirioneddol bwysig i bobl:

- **Dewis a rheolaeth** – cynnwys pobl go iawn wrth ddylunio a darparu gofal a chymorth yn y cartref.
- **Perthnasau** – mae pobl yn gwerthfawrogi cael perthynas â'u teulu a'u cymuned.
- **Y gallu i ofalu** – mae gofalwyr di-dâl am gael cymorth i barhau i ofalu cyn hired â phosibl.
- **Byw gartref** – mae pobl am aros gartref mewn tai sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a'r rheini'n ddigon hyblyg i ateb eu anghenion wrth iddynt newid.
- **Gwasanaethau cyson** – mae pobl am gael gwasanaethau sy'n rhoi hyblygrwydd a dewis iddynt. Mae angen i'r gweithlu feddu ar y gwerthoedd iawn ar sail parch ar y naill ochr a'r llall.

Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith cyfreithiol sy'n hybu hyn ac mae angen i'r fframwaith hwnnw yrru newid yn ei flaen. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad clir i'r cynllun strategol hwn.

Mae angen newid diwylliant ac arferion ymhlith pawb, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- Y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- Y gweithlu sy'n cynllunio, yn comisiynu ac yn darparu gofal a chymorth yn y cartref.

**“Rwyf wrth fy modd yn cyfarfod pobl newydd, yn dysgu amdanynt; mae gan bawb ei stori.”<sup>2</sup>**

**“Mae'n bwysig imi greu perthynas dda. Mae'n gwneud imi deimlo'n fwy diogel.”<sup>3</sup>**

<sup>2</sup> Dyfyniad gan weithiwr o **Uwchben a thu hwnt: Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru 2015-16**. AGGCC, 2016

<sup>3</sup> Dyfyniad o adroddiad Home Care in Wales: **Views and experiences of older people**, Adroddiad gan Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2012

## 3. Y prif feysydd ar gyfer gweithredu



### 3.2 Rhoi gofal a chymorth yn y cartref sydd wedi'i ddylunio o amgylch cymunedau.

Mae gan ofalwyr a theuluoedd gyfraniad allweddol i'w wneud wrth roi gofal a chymorth yn y cartref. Mae'n waith nad yw'n aml yn cael ei weld, a gall fod yn waith unig. Mae pobl yn teimlo mai'r berthynas yw'r peth pwysicaf, a'r gwaith gofalu'n dod yn ail, os o gwbl. Mae angen inni helpu gofalwyr a'u teuluoedd fel y gallant barhau i ofalu cyn hired â phosibl.

Mae angen inni ddeall yn iawn pa adnoddau sydd ar gael yn ein cymunedau. Mae angen inni helpu cymunedau lleol i fanteisio i'r eithaf ar eu cryfderau a'u cysylltiadau. Mae'n rhaid inni eu defnyddio, a'u datblygu, er mwyn rhoi hwb i iechyd a lles pobl, yn enwedig ymhlith y rheini sy'n fwyaf agored i niwed.

Mae hyn yn golygu gweld sut y gall gwahanol opsiynau weithio ynghyd. Mae'n cynnwys gwirfoddoli, bancio amser, darpariaeth gydweithredol, mentrau cymunedol a chymorth tai.

#### Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud y canlynol:

- gweithio fel partneriaid cyfartal yn eu cymunedau ac â'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol
- edrych ar sut y gallant ddatblygu capasiti yn eu cymunedau er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i ofalwyr a phobl sy'n agored i niwed
- defnyddio'r asesiadau o anghenion y boblogaeth i benderfynu ar yr hyn y mae angen ei wneud.

## 3. Y prif feysydd ar gyfer gweithredu



### 3.3 Rhoi gofal a chymorth yn y cartref sy'n ceisio sicrhau canlyniadau personol ac ateb gwahanol anghenion.

Mae angen inni sicrhau bod modd i bobl gael y wybodaeth a'r cyngor y mae eu hangen arnynt er mwyn gwneud dewisiadau doeth wrth geisio cymorth. Dylai gwasanaethau eiriolaeth annibynnol fod ar gael pan fydd galw. Mae angen gwybodaeth glir ynghylch sut y gall pobl gael gofal a chymorth a'r hyn sydd ar gael. Gall hyn rwystro problemau rhag gwaethygu neu helpu pobl i helpu eu hunain.

Mae amrywiaeth o ymatebion gwahanol y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu rhoi i blant, pobl ifanc neu oedolion. Mae'r rhain yn dibynnu ar gryfderau ac anghenion unigolion.

Rhaid i ofal a chymorth yn y cartref fod yn hyblyg ac wedi'i integreiddio. Dylai gwasanaethau ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ac ymateb i anghenion a disgwyliadau sy'n newid.

Mae angen i wasanaethau fod wedi'u seilio ar dystiolaeth ond gan annog arloesi a dysgu.

---

**“Mae'n beth da pan fydd rhywun yn treulio amser yn gwrando, ond mae amser bob tro yn broblem.”**

---



Mae'n wir hefyd y bydd anghenion lleol gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Er enghraifft, bydd angen trefnu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn wahanol i wasanaethau yn y dinasoedd. Weithiau, mae galw am wasanaethau arbenigol. Er enghraifft: gwasanaethau i blant sydd ag anghenion penodol neu bobl sy'n byw â dementia.

#### Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud y canlynol:

- arwain y gwaith o ddylunio a darparu gofal a chymorth yn y cartref
- sicrhau bod gofal a chymorth yn canolbwyntio ar ganlyniadau personol ac ar ateb anghenion lleol (yn hytrach na dilyn dull sy'n edrych ar 'amser a thasg')
- cydlynu a sicrhau bod gwasanaethau yn cyd-fynd â'i gilydd
- dod o hyd i gyfleoedd a'u defnyddio i gronni cyllid er mwyn gwneud arbedion
- rhoi modelau gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith.

Bydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol a Gofal Cymdeithasol Cymru yn helpu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hyn o beth.

## 3. Y prif feysydd ar gyfer gweithredu



### 3.4 Buddsoddi mewn amrywiaeth o opsiynau o ansawdd da sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol ac yn iach.

Gall gofal a chymorth yn y cartref helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Gall hyn rwystro pobl rhag bod angen gwasanaethau iechyd a gofal mwy costus neu rai sy'n amharu fwy ar eu bywydau. Rhaid inni ganfod y ffyrdd mwyaf economaidd ac effeithiol o roi gofal a chymorth yn y cartref.

Mae sut y mae sefydliadau wedi gorfod cyflwyno tendrau am wasanaethau yn golygu eu bod wedi gorfod cwtogi costau. Mae hyn yn effeithio ar gyflogau, telerau ac amodau'r gweithlu. Mae'n anodd recriwtio a chadw staff. Oherwydd hyn, mae darparwyr rhai gwasanaethau wedi penderfynu peidio â chyflwyno tendrau i awdurdodau lleol mwyach.

Mae rhai pobl yn talu am eu gofal a'u cymorth eu hunain. Mae pobl sy'n rhoi gwasanaethau inni wedi dweud wrthym y gallant roi gwasanaeth gwell pan fydd hyn yn digwydd.

Mae angen inni sicrhau bod pob math o ofal a chymorth sy'n cael ei roi o ansawdd da ac yn gyson, a bod y gwir gostau'n cael eu talu.

Mae angen inni wneud y canlynol:

- cyfiawnhau ein defnydd o arian cyhoeddus
- dangos sut y gall rhaglenni yn y gymuned leihau'r galw am wasanaethau mwy costus
- bod yn onest am yr hyn y gallwn ei ariannu
- rhoi gwybod i bobl am yr hyn y bydd disgwyl iddynt dalu amdano.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- edrych ar yr opsiynau i gynyddu a darparu cymaint o adnoddau ag y bo modd wrth fuddsoddi mewn gofal a chymorth yn y cartref
- edrych ar gyllido mewn ffordd wahanol er mwyn sicrhau
  - bod pobl yn gallu cael gofal a chymorth pan fydd angen hynny arnynt, er mwyn osgoi argyfwng
  - nad yw sut y caiff gofal a chymorth ei roi yn effeithio ar ddewisiadau a rheolaeth pobl
- blaenoriaethu cyllid er mwyn rhoi darpariaeth gynaliadwy, gan gynnwys cyflogau, telerau ac amodau'r gweithlu.

Dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod y systemau ar gyfer prynu gofal a chymorth yn y cartref yn gwneud y canlynol:

- sicrhau cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol
- yn haws i'w deall a'u defnyddio
- yn canolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau lles personol.

Bydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol yn cefnogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn arwain y gwaith o ddatblygu pecyn comisiynu er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith.

## 3. Y prif feysydd ar gyfer gweithredu



### 3.5 Sicrhau bod gan y gweithlu y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i roi gofal a chymorth yn y cartref.

Mae pobl yn gwerthfawrogi cael gweithlu cyson a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig. Mae gweithwyr hefyd yn rhoi gwerth ar y perthnasau y byddant yn eu ffurfio drwy eu gwaith.

Er mwyn ateb anghenion a disgwyliadau pobl, mae angen arwain a rheoli'r gweithlu yn dda. Mae angen arweinwyr a rheolwyr sy'n sicrhau bod eu gwasanaeth o ansawdd da ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn dda. Dylent sicrhau bod gan y gweithlu y gefnogaeth y mae ei hangen arni er mwyn rhoi gwasanaeth.

Mae angen i waith gofal a chymorth gael ei barchu fel dewis gyrfa. Mae angen i'r gweithlu gael y gwerthoedd, y wybodaeth a'r sgiliau iawn. Mae angen eu gwerthfawrogi, a dylent deimlo'n hyderus a medrus wrth wneud eu gwaith. Dylai'r telerau a'r amodau adlewyrchu hyn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r system weithio ac er mwyn rhoi gofal a chymorth sydd wedi'i seilio ar berthnasau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

**Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu ac yn creu strategaeth ar gyfer y gweithlu a fydd yn gwneud y canlynol:**

- hyrwyddo gwerth gofal a chymorth yn y cartref
- amddiffyn annibyniaeth a gwella lles pobl
- cefnogi'r gweithluoedd ieuchyd, tai a gofal cymdeithasol i gydweithio'n well
- helpu i greu dull cyson o ddiffinio a rhoi gofal sy'n ymwneud ag ieuchyd
- cefnogi arweinwyr, rheolwyr ac ymarferwyr i roi'r newidiadau hyn ar waith
- cynnig opsiynau i ofalwyr a theuluoedd
- cynnig cyfleoedd dysgu i bobl sy'n cynllunio ac yn comisiynu gofal a chymorth yn y cartref
- uwchsgilio'r gweithlu gofal cartref drwy gymwysterau, cofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus
- cefnogi cyflogwyr i fynd i'r afael â phroblemau wrth recriwtio a chadw staff
- cefnogi cyflogwyr i fynd i'r afael â chyflogau ac amodau gwael
- gweithio â phartneriaid yn y maes addysg, fel Cymwysterau Cymru, i ddatblygu cyfleoedd dysgu
- canfod beth yw anghenion y gweithlu yn y dyfodol
- datblygu diwylliant o arloesi, gwella, arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymwybyddiaeth o ymchwil.



## 3. Y prif feysydd ar gyfer gweithredu



### 3.6 Seilio gofal a chymorth yn y cartref ar y dystiolaeth orau o ymchwil academaidd ac ymchwil sy'n edrych ar arferion.

Mae angen inni sicrhau ein bod yn seilio gofal a chymorth yn y cartref ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Mae hyn yn cynnwys llais pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a llais gofalwyr.

Dylid defnyddio ymchwil, monitro ac enghreifftiau o arferion da yn sail i ddatblygu gwasanaethau a phennu blaenoriaethau ymchwil.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru ac uned Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cydweithio i wneud y canlynol:

- datblygu a chydlynu gwybodaeth ar sail tystiolaeth am y gwahanol fodelau o ddarparu gofal a chymorth yn y cartref
- edrych ar ba mor effeithiol yw modelau gwahanol wrth sicrhau canlyniadau personol
- gwerthuso a hyrwyddo syniadau newydd ac arloesol
- arwain gwelliannau wrth gynllunio, dylunio a gweithredu
- cefnogi gwelliannau parhaus, ar sail tystiolaeth, mewn arferion.

## 4. Y camau nesaf



Nid yw'n bosibl i un grŵp neu sefydliad wneud y newidiadau y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon ar ei ben ei hun. Bydd angen rhannu'r gwaith a'r penderfyniadau a wneir drwy gydgyhyrchu. Bydd hyn yn galw am ymrwymiad gan bawb, gan gynnwys:

- unigolion
- gofalwyr
- teuluoedd a chymunedau
- y rheini sy'n comisiynu, yn darparu ac yn rheoleiddio gwasanaethau
- Llywodraeth Cymru.

Er mwyn rhoi'r weledigaeth yn y cynllun strategol hwn ar waith, bydd angen inni ysbrydoli, annog a herio ein gilydd i gefnogi arferion da ac i wella.

Mae angen dechrau ar y gwaith yn syth. Rydym wedi datblygu cynllun sy'n dangos rhai o'r pethau cyntaf y mae angen eu gwneud. Byddwn yn gweithio â phobl drwy Gymru i gynllunio pa welliannau y mae angen eu gwneud, a sut y caiff hynny ei gyflawni.

Mae detholiad bychan o enghreifftiau o arferion da i'w weld isod. Byddwn yn ychwanegu at y rhain wrth roi'r strategaeth ar waith.

# Atodiad 1:

## Cyfranwyr at ddatblygu'r Cynllun Strategol



- Cymdeithas Alzheimer
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)
- Tîm Ailalluogi Cymunedol Blaenau Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin
- Gofal a Thrwsio Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Cynhalwyr
- Ymddiriedolaeth Carnegie UK
- Cartrefi Cymru
- Dinas a Sir Abertawe
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ddinbych
- Diverse Cymru
- Grŵp Cyfeirio Arbenigol Gofal Cartref Cymru
- Dechrau'n Deg Caerdydd
- Tîm Rhanbarthol Gwent Fwyaf
- Tîm Trawsnewid Gwent
- Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai
- Is-adran Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
- Unigolion sy'n defnyddio gofal a chymorth
- Cymdeithas MS Cymru
- Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- Cyfarfod Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol Gogledd-orllewin Cymru
- Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyngor Sir Penfro
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Grŵp Cyfeirio Gofal Cymdeithasol Cymru
- Tîm Adnoddau Cymunedol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- UNSAIN Cymru
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU
- Cymdeithas Gweithwyr Cymorth Cyfyngedig y DU
- Y Sefydliad dros Ragoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol
- Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyngorhau Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Canolfan Cydweithredol Cymru / Cydweithredu i Ofalu
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Conffederasiwn GIG Cymru
- Gwasanaeth Addysgu a Datblygu'r Gweithlu y GIG
- Cyngor Sir Ynys Môn

## Atodiad 2: Dogfennau allweddol



Yn ogystal â'r adolygiad cyflym o dystiolaeth a gomisiynwyd gan SCIE er mwyn llywio'r cynllun strategol hwn, defnyddiwyd nifer o adroddiadau, adolygiadau a chyhoeddiadau wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer Gofal a Chymorth yn y Cartref. Rhestrir rhai o'r dogfennau allweddol isod:

### Adroddiadau a gwybodaeth o Gymru

1. Lle i'w alw'n gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2014
2. Uwchben a thu hwnt: Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru 2015-16. AGGCC, 2016
3. Cael Gafael ar Ofal Cymdeithasol yng Nghymru a Thalu Amdano: Safbwynt pobl. Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, 2016
4. System Gofal Integredig (nid heb y maes Tai na'r Trydydd Sector). Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2013
5. Gofal yn y Cartref: heriau, posibiliadau a goblygiadau ar gyfer y gweithlu yng Nghymru. Cyngor Gofal Cymru, 2010
6. Dogfen Ymgynghori: Gwella'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr Gofal Cartref yn y Gweithlu Gofal Cartref yng Nghymru Llywodraeth Cymru, 2016
7. Ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref. Llywodraeth Cymru, 2016
8. Future Pressures on Welsh Public Services: Financial, demand and other cost pressures to 2025 and a review of potential responses. Mark Jeffs, Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 2013.
9. Home Care in Wales: views and experiences of older people. Adroddiad gan Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2012
10. Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar gyfer Cyflenwi. Llywodraeth Cymru, 2010
11. Ffigurau StatsCymru ar Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau; Gofal cartref fesul awdurdod lleol; Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol - Niferoedd Staff yng Nghymru. Ystadegau Cymru, 2015
12. Helpu i ddatblygu, casglu a dadansoddi data gweithlu Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, 2015.
13. Arolwg o ymwelwyr i stondin y Cyngor Gofal/SSIA yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol gan ofyn 'pe byddech yn derbyn gofal a chymorth, beth fyddai'n helpu i wneud gwasanaeth da, yn eich barn chi?' Ymatebion:
  - Cael fy nghynnwys yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg 33 y cant
  - Gwell cyflogau i weithwyr 29 y cant
  - Rheolwyr cadarn a chefnogol 19 y cant
  - Cydnabyddiaeth broffesiynol i weithwyr 18 y cant.

# Atodiad 2:

## Dogfennau allweddol



14. Her 2016: Gweledigaeth i GIG Cymru. Nodyn briffio Conffederasiwn GIG Cymru i Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016
15. The impact of the National Living Wage on the care sector in Wales. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2013
16. Proffil Rheolwyr Gofal Cartref yng Nghymru 2016: Adroddiad gan Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru. Cyngor Gofal Cymru, 2016
17. Wales after Brexit: an agenda for a fair, prosperous and sustainable country. Sefydliad Bevan, 2016
18. Ymchwil omnibws Cymru. Beaufort Research, Mehefin 2016
19. Tai i'r dyfodol: diwallu dyheadau pobl hŷn Cymru. Adroddiad gan Grŵp Arbenigol ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio. Llywodraeth Cymru, 2017
4. Personalisation in Children's social work: An ethnographic study of practice in England. Dr Emilie Whitaker, Nodyn Briffio Ymchwil CASCADE Rhif 5: Medi 2015
5. 5. Report of the National Review of Services for Disabled Children. Llywodraeth yr Alban, 2011
6. Social care for older people: Home truths, Richard Humphries, Patrick Hall, Anna Charles, Ruth Thorlby, Holly Holder. Cronfa'r Brenin ac Ymddiriedolaeth Nuffield, 2016
7. Time to care: A UNISON report into homecare. Unsain, 2012
8. UKHCA Summary: An Overview of the Domiciliary Care Market in the United Kingdom. Cymdeithas Gofal Cartref y DU, Mai 2016
9. What, when, why and how: zombie social work and the need for a new narrative Pennod 2 yn Rethinking Children's Services: Fit for the Future? Donald Forrester, golygydd gan Enver Solomon. Biwro Cenedlaethol y Plant, 2016

### Adroddiadau a gwybodaeth ar gyfer y DU gyfan

1. Comparative Costs of Home Care and Residential Care. Chappell et al., Gerontologist 2004, Mehefin, 44(5) 389-400
2. Facts about carers. Carers UK, 2015
3. How have mortality rates by age changed over the last 50 years? Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013